OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 Rhif 1654 (Cy.189)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Dileu Atebolrwydd dros Fenthyciadau i Fyfyrwyr at Gostau Byw (Cymru) 2011

*Gwnaed - - - - 5 Gorffennaf 2011*
*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - - 7 Gorffennaf 2011*
*Yn dod i rym - - 1 Awst 2011*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 22, 42(6) a 43(1) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(**1**) ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(**2**):

### Enwi a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Dileu Atebolrwydd dros Fenthyciadau i Fyfyrwyr at Gostau Byw (Cymru) 2011.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Awst 2011.

### Cymhwyso

**2.** Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â Chymru a darparu cymorth i fyfyrwyr mewn cysylltiad â Blwyddyn Academaidd 2011/2012.

### Dehongli

**3.** Yn y Rheoliadau hyn—

mae i'r ymadrodd "yr Atebolrwydd sydd heb ei Dalu" ("*the Outstanding Liability*") yr ystyr a roddir iddo yn rheoliad 7;

(**1**) 1998 p.30; diwygiwyd adran 22 gan adran 146 o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000 (p.21) ac Atodlen 11 iddi, adran 722 o Ddeddf Treth Incwm (Enillion a Phensiynau) 2003 (p.1) ac Atodlen 6 iddi, adran 147 o Ddeddf Cyllid 2003 (p.14), adrannau 42 a 43 o Ddeddf Addysg Uwch 2004 (p.8) ac Atodlen 7 iddi ac adran 257 o Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 (p.22).

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 22 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 (ac eithrio i'r graddau y maent yn ymwneud â gwneud unrhyw ddarpariaeth a awdurdodir gan is-adran (2)(a), (c), (j) neu (k), (3)(e) neu (f) neu (5)) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adran 44 o Ddeddf Addysg Uwch 2004 ac mae Gorchymyn Deddf Addysg Uwch 2004 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) 2005 (O.S. 2005/1833 (Cy.149) (C.79)) fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Deddf Addysg Uwch 2004 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) (Diwygio) 2006 (O.S. 2006/1660 (Cy.159) (C.56)) yn cyfeirio at hyn. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraffau 30(1) a 30(2)(a) o Atodlen 11 iddi.

ystyr "benthyciad at gostau byw" ("*loan for living costs*") yw benthyciad a geir oddi wrth Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â'r Flwyddyn Academaidd 2011/2012 o dan Reoliadau a wneir yn unol ag adran 22 o Ddeddf 1998(**3**);

ystyr "y benthyciwr" ("*the borrower*") yw person sydd wedi cael benthyciad at gostau byw gan Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â'r Flwyddyn Academaidd 2011/2012;

ystyr "blwyddyn academaidd" ("*academic year*") yw'r cyfnod o ddeuddeng mis sy'n dechrau ar 1 Medi, 1 Ionawr, 1 Ebrill neu 1 Gorffennaf yn y flwyddyn galendr y mae blwyddyn academaidd y cwrs o dan sylw yn dechrau ynddi, yn ôl a yw'r flwyddyn academaidd honno yn dechrau ar neu ar ôl 1 Awst ond cyn 1 Ionawr, ar neu ar ôl 1 Ionawr ond cyn 1 Ebrill, ar neu ar ôl 1 Ebrill ond cyn 1 Gorffennaf, neu ar neu ar ôl 1 Gorffennaf ond cyn 1 Awst;

ystyr "Blwyddyn Academaidd 2011/2012" ("*Academic Year 2011/2012*") yw blwyddyn academaidd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2011 ond cyn 1 Medi 2012;

ystyr "Deddf 1998" ("*the 1998 Act*") yw Deddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998;

ystyr "Deddf 2008" ("*the 2008 Act*") yw Deddf Gwerthu Benthyciadau Myfyrwyr 2008(**4**);

ystyr "y Dyddiad Ad-dalu" ("*the Repayment Date*") yw'r diwrnod ar ôl y dyddiad y bernir bod ad-daliad cyntaf y benthyciwr ar ei fenthyciad wedi cael ei dderbyn naill ai gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi neu gan Weinidogion Cymru, pa un bynnag y bernir iddo ei dderbyn gyntaf (yn unol â Rheoliadau a wnaed o dan adran 22 o Ddeddf 1998(**5**));

mae i'r ymadrodd "y Dyddiad Bodloni" ("*the Satisfaction Date*") yr ystyr a roddir iddo yn rheoliad 9;

mae "Gweinidogion Cymru" ("*Welsh Ministers*") yn cynnwys unrhyw berson y mae Gweinidogion Cymru wedi trosglwyddo neu wedi dirprwyo'u swyddogaethau o dan adran 23 o Ddeddf 1998 iddo neu unrhyw berson y maent wedi trosglwyddo eu hawliau o dan adran 9 o Ddeddf 2008 iddo; ac

mae i'r ymadrodd "y Swm Penodedig" ("*the Specified Amount*") yr ystyr a roddir iddo yn rheoliad 6.

## Y cymhwyster ar gyfer dileu

**4.** Mae benthyciwr yn gymwys i gael y Swm Penodedig o'i Atebolrwydd sydd heb ei Dalu wedi ei ddileu yn yr amgylchiadau a geir yn rheoliad 5 ("yr Amgylchiadau").

## Yr Amgylchiadau

**5.** Yr Amgylchiadau at ddibenion rheoliad 4 yw—

(1) bod y benthyciwr wedi cael benthyciad at gostau byw; a

(2) bod Gweinidogion Cymru o'r farn, o ran y benthyciwr ar y Dyddiad Ad-dalu—

(a) nad yw wedi torri unrhyw rwymedigaeth a geir mewn unrhyw gytundeb ar gyfer benthyciad myfyriwr neu mewn unrhyw Reoliadau a wnaed o dan adran 22 o Ddeddf 1998; a

(b) nad oes ganddo gosbau, costau, treuliau neu ffioedd sydd heb eu talu mewn perthynas ag unrhyw fenthyciad o'r fath o dan unrhyw gytundeb neu Reoliadau o'r fath; ac

(**3**) Mae Gweinidogion Cymru'n talu benthyciadau at gostau byw mewn perthynas â'r Flwyddyn Academaidd 2011/2012 yn unol â Rhan 6 o Reoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) 2011 (O.S. 2011/148 (Cy.32)).

(**4**) 2008 p.10.

(**5**) Ar adeg gwneud y Rheoliadau hyn, penderfynir ar y dyddiad y bernir bod ad-daliad benthyciwr wedi cael ei dderbyn yn unol â rheoliad 17 o Reoliadau Addysg (Benthyciadau i Fyfyrwyr) (Ad-dalu) 2009 (O.S. 2009/470) fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Addysg (Benthyciadau i Fyfyrwyr) (Ad-dalu) (Diwygio) 2010 (O.S. 2010/661), Rheoliadau Credyd Defnyddwyr (Cyfarwyddeb UE) 2010 (O.S. 2010/1010) a Rheoliadau Addysg (Benthyciadau i Fyfyrwyr) (Ad-dalu) (Diwygio) 2011 (O.S. 2011/784).